# Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc



# Helo

Ledled Cymru, mae pobl yn cefnogi ffrindiau neu aelodau o'u teulu ac yn gofalu amdanynt. Mae pobl yn gwneud hyn am lawer o resymau:

- salwch
- anabledd
- problemau iechyd meddwl
- problemau gydag alcohol neu gyffuriau.

Mae'r cymorth hwn yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl, ac nid ydynt yn cael eu talu amdano. Gofalwyr di-dâl ydyn nhw.

Gall gofalwyr fod o unrhyw oedran — hyd yn oed pobl ifanc.

## Gofalwyr ifanc

Mae gofalwr ifanc yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n helpu i ofalu am rywun gartref, fel rhiant, brawd, chwaer, neu aelod arall o'r teulu.



Gall gofalu gynnwys help ymarferol, gofalu am eraill, neu roi cymorth emosiynol.

Nid yw llawer o ofalwyr yn gweld eu hunain fel gofalwyr. Maen nhw'n gwneud yr hyn sy'n teimlo'n iawn i'w teulu.

Gall gofalu effeithio ar amser, egni, ysgol, gwaith, cyfeillgarwch, a sut mae rhywun yn teimlo.

Mae pob gofalwr di-dâl yn haeddu cael ei gydnabod, ei wrando arno, a'i gefnogi.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob gofalwr di-dâl gael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt. Ond nid yw llawer o ofalwyr di-dâl yn sylweddoli y gallant gael help a chymorth.

**Felly yn 2025, gofynnon ni i ofalwyr di-dâl beth oedd yn bwysig iddyn nhw a sut y gallen ni eu cefnogi'n well. Fe wnaethon ni gymryd popeth a ddywedon nhw wrthym a datblygu'r:**

**Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.**

Mae gan y strategaeth hon **8 prif flaenoriaeth.** Mae gan bob blaenoriaeth gamau gweithredu i wella bywydau gofalwyr di-dâl.

**Rydyn ni eisiau gwybod beth wyt ti'n ei feddwl.**

**Dilyn y ddolen hon i ateb y cwestiynau wrth i ti fynd ymlaen:**

llyw.cymru/drafft-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-2026

# 1 Adnabod a chydnabod gofalwyr

Nid yw llawer o ofalwyr di-dâl yn cael yr help a'r cymorth cywir am nad yw gwasanaethau'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud. Nid yw rhai pobl yn gweld eu hunain fel gofalwyr.

**Canlyniad: Mae pobl yn deall pwy yw gofalwyr di-dâl a pham mae eu rôl yn bwysig. Mae gofalwyr di-dâl yn teimlo eu bod yn cael eu gweld a'u gwerthfawrogi.**

## » Camau gweithredu

Byddwn yn cynnal ymgyrch wybodaeth i helpu mwy o bobl i ddeall pwy yw gofalwyr di-dâl, pam maen nhw'n bwysig, a pha hawliau sydd ganddynt. Bydd y wybodaeth hon:

- yn cael ei rhannu gyda grwpiau lleol, ysgolion, gwasanaethau iechyd a chymunedau
- yn hawdd i'w darllen a'i deall
- yn parchu credoau a diwylliant pobl
- ar gael mewn ieithoedd gwahanol.

Byddwn yn darparu hyfforddiant a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn deall beth maen nhw'n ei wneud ac yn teimlo'n gallu dweud 'Rwy'n ofalwr'.**

## » Camau gweithredu

Byddwn yn:

- defnyddio negeseuon clir i helpu gofalwyr di-dâl i weld eu hunain fel gofalwyr
- hyrwyddo prosiectau sy'n codi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl ac yn helpu pobl i weld beth maen nhw'n ei wneud.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn cael y cymorth cywir.**

## » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod mwy o staff yn gallu cael hyfforddiant am ofalwyr di-dâl.

Mae hyn yn cynnwys staff ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, tai, yr heddlu a'r gymuned.

Byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant ar-lein ar gael i fferyllwyr.

Bydd ysgolion a cholegau yn sicrhau bod staff yn dysgu sut i adnabod a chefnogi gofalwyr ifanc.

Bydd byrddau iechyd yn sicrhau bod:

- staff yn gwybod sut i adnabod gofalwyr di-dâl a'u helpu i ddod o hyd i gymorth
- ysbytai yn cofnodi pwy yw'r gofalwr di-dâl pan fydd rhywun yn yr ysbyty
- meddygon teulu (GPs) yn sylwi ar ofalwyr di-dâl ac yn cynnig cymorth iddynt.

Bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod staff yn gwybod sut i siarad â gofalwyr di-dâl mewn ffordd garedig ac yn rhoi help clir.



# 2 Cael cymorth gan wasanaethau

Nid yw rhai gofalwyr di-dâl yn cael cymorth am nad yw ar gael lle maen nhw'n byw.
Mae rhai yn osgoi gwasanaethau am eu bod yn poeni y byddan nhw'n cael eu barnu neu ddim yn cael eu deall.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn deall eu hawliau.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn:

- adnewyddu a rhannu'r Siarter Gofalwyr
- gweithio gyda sefydliadau fel y gallant helpu gofalwyr di-dâl i ddeall eu hawliau
- cefnogi sefydliadau cymunedol i helpu gofalwyr di-dâl i ddysgu am eu hawliau hefyd.

**Siarter Gofalwyr** – addewid sy'n esbonio beth ddylai gofalwyr di-dâl ei ddisgwyl gan wasanaethau yng Nghymru.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth i sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael ledled Cymru, sy'n cyfateb i'r hyn sydd ei angen ar bobl mewn gwirionedd.

Bydd awdurdodau lleol yn:

- rhoi Cynllun Cymorth i ofalwyr di-dâl sy'n cael ei wirio a'i ddiweddaru'n rheolaidd
- sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus i esbonio pa gymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl.

Byddwn yn sicrhau bod gofalwyr di-dâl ledled Cymru yn cael yr un wybodaeth glir am Gynlluniau Cymorth a chymorth.

**Canlyniad: Mae mwy o ofalwyr di-dâl yn cael y gwiriadau cymorth cywir, ar amser, ble bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod pob gofalwr di-dâl yn cael yr un wybodaeth glir am asesiadau a chymorth, beth bynnag fo'u hoedran.

Bydd awdurdodau lleol yn:

- sicrhau bod staff sy'n cynnal y gwiriadau hyn wedi'u hyfforddi'n dda
- ei gwneud hi'n haws i ofalwyr di-dâl ofyn am wiriad newydd os bydd eu hanghenion yn newid.



# 3 Gofalwyr ifanc

Mae gofalwyr ifanc yn aml yn teimlo nad ydynt yn cael eu sylwi yn yr ysgol nac gan wasanaethau. Gall gofalu wneud dysgu'n anoddach, effeithio ar eu hiechyd, a'i gwneud hi'n anoddach gweld ffrindiau. Mae llawer o ofalwyr ifanc yn dweud eu bod eisiau mwy o lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

**Canlyniad: Mae gofalwyr ifanc yn gwybod am eu hawliau.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn:

- rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol fel bod mwy o bobl yn gwybod am Gyfamod y Gofalwyr Ifanc
- annog sefydliadau i lofnodi Cyfamod y Gofalwyr Ifanc a chefnogi gofalwyr ifanc.

ℹ **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** – rhestr o hawliau plant.

ℹ **Cyfamod y Gofalwyr Ifanc** – yn dweud y dylid cydnabod gofalwyr ifanc, gwrando arnyn nhw, eu cefnogi, a'u cynnwys mewn penderfyniadau.

**Canlyniad: Gall gofalwyr ifanc gael dweud eu dweud a helpu i gynllunio'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu gwrando ar pan fydd gwasanaethau a pholisïau lleol yn cael eu cynllunio. Byddan nhw'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru gyfan.

**Canlyniad: Mae gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod a'u cefnogi mewn ysgolion a cholegau.**

### » Camau gweithredu

Bydd ysgolion a cholegau yn:

- creu lle diogel a chadarnhaol i ofalwyr ifanc siarad a dweud eu bod yn ofalwyr
- helpu athrawon a staff colegau i ddysgu mwy am ofalwyr ifanc a sut i'w cefnogi
- sicrhau bod arweinwyr mewn ysgolion a cholegau yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni am ofalwr ifanc
- cael yr un wybodaeth glir am ofalwyr ifanc ledled Cymru.

Byddwn yn rhannu enghreifftiau da o bolisïau ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc fel y gall ysgolion eraill ddysgu oddi wrthyn nhw.

**Canlyniad: Mae awdurdodau lleol yn helpu i ddiogelu gofalwyr ifanc fel nad yw gofalu'n niweidio eu hiechyd, eu dysgu na'u dyfodol.**

### » Camau gweithredu

Bydd awdurdodau lleol yn:

- rhoi asesiadau a chymorth i ofalwyr ifanc pan fydd angen
- rhoi'r cymorth sydd ei angen ar ofalwyr ifanc, a'i gofnodi yn eu Cynllun Cymorth. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwirio nad yw gofalwyr ifanc yn cael gormod o gyfrifoldeb ac yn cael y cymorth cywir
- cael y wybodaeth gywir gan wasanaethau fel y gallant gefnogi gofalwyr ifanc yn iawn.

Byddwn yn ei gwneud hi'n hawdd i ofalwyr ifanc gael gwiriad newydd os bydd eu rôl ofalu'n newid.



**Canlyniad:** **Mae gwybodaeth gliriach ar gael am lesiant ac addysg gofalwyr ifanc.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau ein bod yn deall sut mae gofalwyr ifanc yn teimlo ac yn dysgu, o'i gymharu ag eraill o'r un oedran.

**Canlyniad:** **Mae gan ofalwyr ifanc Gardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc fel bod ysgolion a fferyllfeydd yn gwybod eu bod yn ofalwyr.**

### » Camau gweithredu

Bydd awdurdodau lleol yn:

- rhedeg a hyrwyddo cynlluniau Cardiau Adnabod i Ofalwyr Ifanc
- gweithio gydag ysgolion fel bod mwy o ofalwyr ifanc yn gwybod am eu cardiau ac yn eu defnyddio.

Byddwn yn sicrhau bod fferyllwyr yn deall ac yn adnabod Cardiau Adnabod i Ofalwyr Ifanc.

**Canlyniad:** **Mae gofalwyr ifanc yn cael y cymorth iechyd meddwl a llesiant cywir.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn:

- sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu cael cymorth iechyd meddwl a llesiant
- helpu staff iechyd ac addysg i ddefnyddio gwybodaeth glir am lesiant gofalwyr ifanc i gynllunio cymorth gwell.

**Canlyniad:** **Mae staff sy'n gweithio ym maes iechyd, tai, yr heddlu a grwpiau cymunedol yn sylwi ar ofalwyr ifanc ac yn gwrando arnyn nhw'n fwy.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn:

- sicrhau bod staff yn cynnwys gofalwyr ifanc mewn sgyrsiau a phenderfyniadau am ofal
- sicrhau bod fferyllfeydd yn helpu gofalwyr ifanc i gasglu meddyginiaethau yn ddiogel.

**Canlyniad:** **Mae gan ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yr un cyfleoedd i ddysgu, hyfforddi a gweithio ag eraill.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod staff mewn colegau, prifysgolion a Gyrfa Cymru yn cael gwybodaeth glir am ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.

**Canlyniad:** **Gall gofalwyr ifanc gael cymorth ariannol.**

### » Camau gweithredu

Bydd ysgolion a cholegau yn deall beth mae gofalwyr ifanc yn ei wneud ac yn eu helpu i gael arian ar gyfer cymorth addysg.

Byddwn yn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael help i wneud cais i'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr ac i gael cyngor ariannol.

**Canlyniad:** **Mae gofalwyr ifanc yn cael amser i orffwys, ymlacio a chael seibiant o ofalu.**

### » Camau gweithredu

Bydd awdurdodau lleol yn gwirio nad yw gofalwyr ifanc yn gwneud gormod ac yn gallu cael seibiannau.

Byddwn yn sicrhau bod grwpiau fel Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn helpu gofalwyr ifanc i wybod am seibiannau byr a sut i'w cael.



# 4 Caledi ariannol

Mae llawer o ofalwyr di-dâl yn ennill llai o arian am eu bod yn gweithio llai o oriau neu wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio.

Gall costau ychwanegol, fel gwresogi a theithio, wneud pryderon am arian yn waeth. Nid yw rhai gofalwyr yn gwybod pa fudd-daliadau y gallant eu cael.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn deall budd-daliadau ac yn gallu cael unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo.**

## » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys mewn gwybodaeth a chymorth am fudd-daliadau ac arian.

Bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod staff yn cyfeirio gofalwyr di-dâl at gyngor am fudd-daliadau ac arian.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod:

- gwasanaethau gofalwyr yn rhannu cyngor am arian ac yn helpu gofalwyr di-dâl i ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt
- y Gronfa Gymorth yn parhau i roi cyngor am arian a chymorth ariannol.



# 5 Cyflogaeth â thâl

Mae'n aml yn anodd cydbwyso gwaith a gofalu.
Weithiau mae cyflogwyr yn garedig ac yn dod o hyd i ffyrdd o weithio o gwmpas rôl ofalu rhywun, ond nid yw hyn bob amser yn digwydd.

**Canlyniad: Gall gofalwyr di-dâl aros mewn gwaith â thâl neu ddychwelyd ato am fod cymorth ar waith i'r person maen nhw'n gofalu amdano.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod:

- gwiriadau cymorth yn cynnwys beth mae pobl yn ei feddwl ac yn ei eisiau o ran gweithio
- cynlluniau gofal yn dangos pa gymorth sydd ei angen tra bod gofalwyr di-dâl yn y gwaith, a pha gymorth sydd ar waith.

**Canlyniad: Mae gwasanaethau cyflogaeth yn gwybod am ofalwyr di-dâl ac yn eu cefnogi i fynd i mewn i waith.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod:

- staff sy'n gweithio ym maes cymorth cyflogaeth yn cael gwybodaeth am ofalwyr di-dâl, eu sgiliau, a'u hawliau yn y gwaith
- gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys yn glir mewn rhaglenni i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

**Canlyniad: Mae cyflogwyr yn deall gofalwyr di-dâl a'u hawliau yn y gwaith.**

### » Camau gweithredu

Byddwn yn:

- rhannu gwybodaeth glir gyda chyflogwyr ac undebau llafur am hawliau gofalwyr yn y gwaith
- hyrwyddo ffyrdd o helpu gweithleoedd i fod yn fwy 'ystyriol o ofalwyr'.



# 6 Gofal amgen (seibiant) a seibiannau o ofalu

Mae'n anodd i lawer o ofalwyr gael seibiant o ofalu. Mae gofalwyr yn dweud bod angen seibiannau hyblyg a dibynadwy arnyn nhw.

**Gofal amgen (seibiant)** – pan fydd rhywun arall yn gofalu am y person rwyt ti'n gofalu amdano, fel y gelli di orffwys, gwneud dy bethau dy hun, neu gael amser i ffwrdd.



**Canlyniad: Gall gofalwyr di-dâl gael seibiannau o ofalu sy'n diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion y person maen nhw'n gofalu amdano.**

## » Camau gweithredu

Byddwn yn:

- gwirio sut mae seibiannau byr i ofalwyr di-dâl yn gweithio ym mhob ardal yn lleol ac ar draws Cymru
- creu mwy o seibiannau byr, gan gynnwys seibiannau dros nos a gwyliau
- sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael yr un wybodaeth glir am seibiannau byr a thaliadau uniongyrchol ledled Cymru
- parhau i gefnogi'r Cynllun Seibiannau Byr cenedlaethol tan 2029.

# 7 Iechyd meddwl a llesiant

Gall gofalu wneud i bobl deimlo'n flinedig, yn bryderus ac ar eu pennau eu hunain.
Nid yw llawer o ofalwyr di-dâl yn siŵr am eu dyfodol ac mae angen help arnyn nhw pan fyddan nhw'n rhoi'r gorau i ofalu.

**Iechyd meddwl** – sut rydyn ni'n teimlo ac yn meddwl. Mae'n effeithio ar ein hwyliau, ein perthnasoedd, a sut rydyn ni'n ymdopi â bywyd bob dydd.

**Canlyniad: Gall gofalwyr di-dâl reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant.**

## » Camau gweithredu

Bydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn helpu gofalwyr di-dâl i ofalu am eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Byddwn yn:

- cefnogi sefydliadau gofalwyr cenedlaethol i roi cymorth llesiant
- helpu gwasanaethau llesiant cyffredinol i ddeall gofalwyr di-dâl yn well ac i ddiwallu eu hanghenion.

**Gwasanaethau iechyd cyffredinol** – gwasanaethau sy'n helpu pobl i aros yn iach, fel meddygon teulu (GPs), nyrsys, ysbytai, deintyddion a fferyllfeydd.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl ac sydd mewn perygl o hunanladdiad yn cael eu hadnabod ac yn cael cymorth.**

**Hunanladdiad** – pan fydd rhywun yn dod â'i fywyd ei hun i ben.

## » Camau gweithredu

Byddwn yn:

- sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau i leihau hunanladdiad yng Nghymru
- defnyddio hyfforddiant ar-lein fel bod staff yn sylwi pan fo gofalwr di-dâl mewn perygl o hunanladdiad ac yn eu cefnogi
- rhoi hyfforddiant i weithwyr cymunedol a gwirfoddol i ddeall risg hunanladdiad
- sicrhau bod staff yn ystyried y risg o hunanladdiad pan fyddan nhw'n cynnal asesiadau cymorth i ofalwyr di-dâl.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn cael help i symud ymlaen mewn bywyd ar ôl iddyn nhw roi'r gorau i fod yn ofalwr di-dâl.**

## » Camau gweithredu

Byddwn yn gwirio pa wybodaeth am gymorth sydd ar gael, yn creu mwy os oes angen, ac yn ei rhannu gyda gofalwyr.



# 8 Gofalwyr mewn cynllunio gofal

Mae rhai gofalwyr di-dâl yn treulio llawer o amser yn ceisio cael help i'r person maen nhw'n gofalu amdano gan wasanaethau iechyd a gofal.
Yn aml, nid ydynt yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau pwysig am iechyd.
Mae aros am gymorth yn gwneud straen, pryderon gwaith, a phryderon am arian yn waeth.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu gwrando arnynt, yn cael eu trin fel rhan o'r tîm, ac yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gofal y bobl maen nhw'n gofalu amdanynt.**

## » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod:

- gweithwyr proffesiynol yn cynnwys gofalwyr di-dâl mewn gwiriadau gofal ac wrth gynllunio gofal
- gwasanaethau yn deall ac yn parchu gofalwyr ifanc
- staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd yn cynnwys gofalwyr di-dâl mewn cynlluniau gofal a thriniaeth pan fydd y person sy'n cael gofal yn cytuno.

Bydd byrddau iechyd yn helpu staff i ddeall pa mor bwysig yw cael caniatâd gan y person sy'n cael gofal ac i gadw rhywfaint o wybodaeth yn breifat os ydynt yn dymuno hynny.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn helpu i gynllunio beth sy'n digwydd pan fydd y person maen nhw'n gofalu amdano yn mynd adref o'r ysbyty.**

## » Camau gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod staff yn cynnwys gofalwyr di-dâl wrth gynllunio sut mae rhywun yn gadael yr ysbyty.

Bydd byrddau iechyd yn:

- sicrhau bod gan ofalwyr di-dâl wybodaeth glir a chymorth pan fydd rhywun yn gadael yr ysbyty
- cadw ffyrdd clir o gofnodi pwy yw'r gofalwyr di-dâl, a sicrhau bod staff yn deall preifatrwydd a chaniatâd pobl.

**Canlyniad: Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau iechyd a gofal cymdeithasol, cyn belled â'i fod yn ddiogel ac yn unol â dymuniadau'r person maen nhw'n gofalu amdano.**

## » Camau gweithredu

Bydd gwasanaethau awdurdodau lleol yn gwrando ar ofalwyr di-dâl wrth gynllunio gofal a gwasanaethau.



# Gweithio gyda'n gilydd

I sicrhau bod y strategaeth hon yn gwneud gwahaniaeth ym mywydau gofalwyr di-dâl, byddwn yn gweithio gyda:

- Byrddau iechyd
- Awdurdodau lleol
- Gofalwyr Cymru
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
- Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc
- Sefydliadau sy'n gweithio gyda gofalwyr a gofalwyr ifanc
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru)
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.



## Rho dy farn

Ateba'r cwestiynau ar-lein yma:
llyw.cymru/drafft-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-2026

Neu anfon nhw at:

PolisiGofalwyrDi-dal@llyw.cymru

Neu gelli di ymateb drwy'r post:

Tîm Polisi Gofalwyr Di-dâl
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Y dyddiad cau yw 13 Ebrill 2026